# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 11.09.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Eirwyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Dilwyn Williams (Darpar Brif Weithredwr)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:-**
Anwen Davies (Uwch Reolwr Partneriaethau – Gwynedd ac Ynys Môn)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:-**
Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gweno Glyn, Simon Glyn a Michael Sol Owen.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Mehefin, 2014 fel rhai cywir.

Nodwyd bod yna faterion eraill wedi'u trafod, ond heb eu cynnwys yn y cofnodion, ond eglurwyd mai yn y Cyfarfod Paratoi ar 30 Gorffennaf y codwyd y materion hynny. Nodwyd nad oedd yr aelodau wedi derbyn nodiadau'r Cyfarfod Paratoi a phwysleisiwyd pwysigrwydd dosbarthu'r nodiadau i'r aelodau cyn cyfarfod dilynol y pwyllgor.

Nodwyd, er i'r Cynghorwyr Lesley Day a June Marshall gyflwyno'u hymddiheuriadau am fethu cyrraedd mewn pryd ar gyfer cyfarfod y pwyllgor oherwydd problemau traffig, bod eu presenoldeb yn y Gweithdy Blynyddol dilynol wedi'i gofnodi.

**3. GWYNEDD AMDANI**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn rhoi diweddariad o gynlluniau'r Cyngor i arwain ar drefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer cymunedau'r sir, a / neu i hwyluso a hyrwyddo'r cynllun Cyd Cymru a'r buddiannau ynghlwm ag ef i drigolion y sir.

(B) Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:-

- Pryder ynglŷn â'r diffyg symud ymlaen ar y mater hwn a'r ffaith nad oedd y swyddogion wedi cysylltu â chynghorau eraill sy'n rhedeg cynlluniau llwyddiannus.
- Y pryderon ynglŷn â chynllun Cyd-Cymru ynghyd ag awgrym mai'r ffordd o'i wella oedd drwy gyfeirio mwy o bobl ato, drwy wefan y Cyngor a Newyddion Gwynedd.
- Y posibilrwydd y gallai'r Cyngor sefydlu a rhedeg ei gynllun ei hun ynghyd â goblygiadau hynny o ran adnoddau.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Aelod Cabinet Adnoddau edrych ar yr holl opsiynau, ynghyd â'r costau, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.**

**4. MEDDYLFRYD SYSTEMAU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn ymateb yn benodol i gyfres o gwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi.

(B) Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:-

- Y cyswllt rhwng Meddylfryd Systemau a Ffordd Gwynedd a goblygiadau unrhyw uno cynghorau ar hynny.
- Y gwersi a ddysgwyd o'r ddau beilot yn yr Unedau Digartrefedd a Chynnal a Chadw. Nodwyd bod cannoedd o gamau wedi'u tynnu allan o brosesau'r Uned Cynnal a Chadw. Ar gais aelod, cytunodd y Darpar Brif Weithredwr i ddarparu'r data o ran monitro cynnydd yn y ddau faes yma i'r aelodau.
- Prif nod y cynllun yw i wasanaethu pobl Gwynedd mewn ffordd llawer mwy effeithiol. Gall hynny arwain at arbedion o newid y diwylliant ymysg staff y Cyngor – llai o gyfarwyddo a rheoli gan arfogi gweithwyr i wneud penderfyniadau, ond nid arbedion yw'r prif nod.
- Sut i raeadru'r newid diwylliant drwy'r Cyngor a'r amserlen ar gyfer cyflawni hynny.
- Perchnogi problemau aml-adrannol.
- Yr angen i reoli risg.
- Buddioldeb ceisio barn arbenigwyr, e.e. mewn prifysgol, ar ymagwedd y Cyngor at feddylfryd systemau.

Mynegwyd dymuniad yr aelodau i weld symud ymlaen ar y mater hwn.

**5. TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Partneriaethau yn manylu ar y camau cychwynnol yn nhaith drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ynghyd â'r camau nesaf a fwriedir i ddatblygu ymhellach drefniadau craffu aelodau etholedig yng ngwaith y Bwrdd.

(B) Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau ar ganlyniadau trafodaethau cychwynnol diweddar rhwng swyddogion y ddau gyngor.

(C) Yn ystod y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:-

- Pryder y gallai'r Cynulliad dynnu gwasanaethau oddi ar y cynghorau a'r angen i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth i ddatgan beth yw eu cynlluniau fel nad yw'r byrddau yn cael eu cadw yn y tywyllwch.
- Y math o egwyddorion sy'n arwain y drafodaeth ynglŷn â chyd-graffu a'r penawdau a gododd o'r cyfarfod cyntaf.
- Problemau De Gwynedd a'r ffaith fod rhaid i unrhyw drefniadau gyfarch anghenion y sir gyfan.
- Sut mae'r awdit gan Swyddfa Archwilio Cymru'n debygol o fwydo i mewn i daith ddatblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Yr angen i sicrhau bod Gwynedd a Môn yn rhannu'r un meddylfryd ac yn deall ei gilydd.
- Lefel y gynrychiolaeth gan y cyrff eraill.
- Amseriad yr asesiad corfforaethol.
- Bod angen gwybod beth yw'r trefniadau ffurfiol sydd ar waith rhwng Cynghorau Gwynedd a Môn o ran cynnal y drafodaeth lefel uchel i baratoi'r ffordd ar gyfer uno'r cynghorau a'r angen i graffu cynnydd y gwaith penodol sydd i'w gyflawni o dan hynny hefyd.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cyfarfod Paratoi nesaf ystyried sut mae'r mater hwn yn integreiddio i mewn i raglen waith y Pwyllgor Craffu.**

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - CYDWEITHIO

Cyflwynwyd – briff yr ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Sefydlu Ymchwiliad Craffu a phenodi'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Jones, ynghyd â'r Cynghorwyr Trevor Edwards ac Eirwyn Williams, yn aelodau o'r Ymchwiliad.**

**(b) Bod Vera Jones, Rheolwr Aelodau – Gwasanaethau Democrataidd yn chwilio am 2-3 aelod arall i fod yn rhan o'r ymchwiliad, gan siarad gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau os oes angen, a chadarnhau'r aelodaeth yn y Cyfarfod Paratoi nesaf ar 2 Hydref.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, nododd y Cadeirydd y byddai'r Fforwm Craffu yn cyfarfod yn aml dros yr wythnosau nesaf i drafod yr arbedion, a chan nad oedd yn bosib' iddo ef a'r Is-gadeirydd fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd hynny, y byddai'n fuddiol petai aelod arall o'r pwyllgor yn gwirfoddoli i fynychu yn eu habsenoldeb. Cytunodd y Cynghorydd Sian Gwenllian i gynorthwyo yn ôl yr angen.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.25pm.